

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

Tachwedd 2022



1. Y cefndir

Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi, ar 8 Mehefin 2022. Caiff ei noddi gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.¹

2. Mae teitl hir y Bil yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:

"to make provision about the regulation of social housing; about the terms of approved schemes for the investigation of housing complaints; and for connected purposes."

3. Cwblhaodd y Bil ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi ar 31 Hydref 2022. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r dyddiad ar gyfer y Cyfnod Pwyllgor yn Nhy'r Arglwyddi wedi'i gyhoeddi eto.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

5. Ar 18 Awst 2022 gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.²

6. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 1 Rhagfyr 2022.³

Effaith y Bil yng Nghymru

7. Ym mharagraffau 13 a 14 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn datgan:

¹ Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), fel y'i cyflwynwyd (Bil Tŷ'r Arglwyddi 21)

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Awst 2022

³ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Medi 2022

"Mae'r mwyafrif o ddarpariaethau'r Bil yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf [Tai ac Adfywio] 2008. Mae Rhan 2 o Ddeddf 2008 yn sefydlu fframwaith ar gyfer rheoleiddio tai cymdeithasol gan gyrrff Seisnig.

Darperir ar gyfer y gyfundrefn rheoleiddio tai cymdeithasol yng Nghymru o dan Ran 1 o Ddeddf [Tai] 1996, nid Rhan 2 o Ddeddf 2008."

8. Mae Rhan 1 o *Deddf Tai 1996* (Deddf 1996) yn gymwys i gofrestru a rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Nid yw Rhan 1 o *Ddeddf 1996* yn cynnwys darparwyr cofrestredig wedi'u lleoli yn Lloegr, hyd yn oed pan maent yn berchen ar neu'n rheoli stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Caiff darparwyr cofrestredig sydd wedi'u lleoli yn Lloegr (gan gynnwys y rhai sy'n berchen ar neu'n rheoli stoc dai yng Nghymru) eu rheoleiddio o dan Ran 2 o *Ddeddf Tai ac Adfywio 2008* (Deddf 2008).

9. Nid yw'r Bil yn newid Rhan 1 *Deddf 1996*, h.y. nid yw'r Bil yn newid rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Felly, mae'n parhau i fod yn wir bod dwy gyfundrefn ar waith ar gyfer rheoleiddio darparwyr cofrestredig sy'n berchen ar, neu'n rheoli stoc tai cymdeithasol yng Nghymru - cyfundrefn *Deddf 1996* ar gyfer darparwyr wedi'u lleoli yng Nghymru a chyfundrefn *Deddf 2008* ar gyfer darparwyr wedi'u lleoli yn Lloegr.

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

10. Ym mharagraff 17 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn nodi ei hasesiad o ba rai o ddarpariaethau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef:

- Cymal 1 (Amcanion sylfaenol);
- Cymal 2 (Panel cynghori);
- Cymal 3 (Casglu gwybodaeth);
- Cymal 4 (Y gydberthynas rhwng y rheoleiddiwr a'r ombwdsmon tai);
- Cymalau 5 i 8 (Cofrestru darparwyr tai cymdeithasol);
- Cymalau 9 i 10 (Dyletswyddau darparwyr cofrestredig);
- Cymalau 11, 12 a 14 i 16 (Darparwyr cofrestredig: ansolfedd, ailstrwythuro ac ati)
- Cymalau 17 i 21 (Safonau);
- Cymalau 22 i 32, ac Atodlenni cyfatebol 3 i 5 (ac eithrio paragraff 36 i Atodlen 5) (Monitro a gorfodi).

11. Mae'r Gweinidog o'r farn hefyd efallai y bydd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Cymal 33 (Y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol), Cymal 12 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 1 o Atodlen 1) a Rhan 1 o Atodlen 1).⁴

12. Nid yw'r Gweinidog o'r farn y dylid gofyn am gydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 34 i 36 yn y Bil. Ym mharagraff 26 o'r Memorandwm, mae'n nodi:

"Mae a wnelo cymalau 34, 35 a 36 â rhychwant, cychwyn, a theitl byr y Bil. Nid oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau hyn, gan eu bod yn cael effaith y tu hwnt i gyfyngiadau'r Bil hwn."

13. Yn y Memorandwm, mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod yr Is-ysgrifennydd Seneddol ar y pryd dros Gysgu Allan a Thai, Eddie Hughes AS, wedi ysgrifennu ati ar 8 Mehefin 2022 i nodi pa gymalau o'r Bil y mae Llywodraeth y DU yn credu sydd angen cydsyniad y Senedd.⁵

14. Nid yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 12 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 1 o Atodlen 1), cymal 13, Rhan 1 o Atodlen 1 ac Atodlen 2. Ym mharagraff 19 o'r Memorandwm dywed y Gweinidog fod Llywodraeth y DU wedi dweud, mewn gohebiaeth, nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn "cynnwys diwygiadau i *Ddeddf Tai a Chynllunio 2016* sy'n rhychwantu'r DU gyfan a'r pwnc dan sylw ynddynt yw ansolfedd sy'n dod o dan y mater a gedwir yn ôl ym mharagraff 67 o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006)*".

15. Ym mharagraff 20 o'r Memorandwm mae'r Gweinidog hefyd yn dweud nad yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer paragraff 36 o Atodlen 5 gan fod "y ddarpariaeth hon yn gwneud diwygiad canlyniadol i ddarpariaeth yn *Neddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) 2021*, y mae a wnelo â chyfraith eiddo ac sydd yn unol â hynny y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y [Cynulliad] yn unol â pharagraff 3(1) o Ran 1 o Atodlen 7B i [Ddeddf 2006]".

16. Mae'r Gweinidog yn cytuno â dadansoddiad Llywodraeth y DU o gymhwysedd deddfwriaethol⁶ ond gyda'r eithriadau canlynol:

- Dywed y Gweinidog, er bod cymal 12 (i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 1 o Atodlen 1) a Rhan 1 o Atodlen 1 yn ymwneud, yn fras, ag ansolfedd, bod y

⁴ Y Memorandwm, paragraff 17

⁵ Y Memorandwm, paragraff 18

⁶ Y Memorandwm, paragraffau 21 i 23

ddarpariaeth yn darparu ar gyfer cyfundrefn gweinyddu tai, ac felly'n ymwneud â mater datganoledig tai.⁷

- Ym mharagraff 24 o'r Memorandwm mae'r Gweinidog yn nodi bod cymal 32 yn cyflwyno Atodlen 5, ac "mae Llywodraeth y DU yn ildio bod Atodlen 5 yn gwneud darpariaeth berthnasol o ran mater datganoledig tai (ac eithrio paragraff 36), felly mae cymal 32 hefyd yn gwneud darpariaeth berthnasol i'r graddau y mae'n cyflwyno Atodlen 5 ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 32."
- Er bod cymal 33 yn gosod swyddogaeth ar yr Ysgrifennydd Gwladol, ac felly y tu allan i gymhwysedd y Senedd, dywed y Gweinidog ei fod yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth sy'n ganlyniadol ar ddarpariaethau eraill y Bil y dylid gofyn am gydsyniad ar ei gyfer ac, felly, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 33 i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau eraill y Bil.⁸

Safbwynt Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y Memorandwm

17. Roedd paragraffau 28 i 30 y Memorandwm yn nodi casgliadau Llywodraeth Cymru, adeg gosod y Memorandwm gerbron y Senedd. Mae'r Gweinidog yn nodi:

"Yn fy marn i mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Senedd y DU o ystyried y niferoedd bach o stoc tai cymdeithasol yng Nghymru y mae darparwr cofrestredig a leolir yn Lloegr yn berchen arnynt neu'n eu rheoli. At hynny, mae'r diwygiadau a wneir gan y cymalau yn gadarnhaol i'r tenantiaid hynny yng Nghymru, am eu bod yn diwygio'r gyfundrefn reoleiddio ym maes tai cymdeithasol drwy gryfhau hawliau tenantiaid a hyrwyddo newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid a sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.

Felly rwyf yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi cydsyniad ar gyfer y darpariaethau perthnasol yn y Bil."⁹

⁷ Y Memorandwm, paragraff 22

⁸ Y Memorandwm, paragraff 25

⁹ Y Memorandwm, paragraffau 29 i 30

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru

18. Ar 5 Hydref 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd yn dilyn ei ddiwygio yn Nhŷ'r Arglwyddi.¹⁰

Diweddariad am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm a'r diwygiadau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

19. Ym mharagraff 15 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod yr Is-ysgrifennydd Seneddol ar y pryd dros Gysgu Allan a Thai wedi ysgrifennu ati ar 25 Awst 2022 i gadarnhau cyflwyno diwygiadau Llywodraeth y DU i'r Bil, sy'n gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

20. Ym mharagraff 16 o Femorandwm Rhif 2 dywed y Gweinidog fod diwygiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU wedi eu cytuno ar 6 Medi 2022.¹¹

21. Mae'r diwygiadau a gyflwynwyd yn cael effaith ar y cymalau canlynol:

- Cymal 3;
- Mewnsood Cymal 4 newydd (ac ail-rifo cymalau diweddarach yn unol â hynny);
- Cymal 13 ac Atodlen 1;
- Cymal 17;
- Mewnsood Cymal 18 newydd (ac ail-rifo cymalau diweddarach yn unol â hynny);
- Cymal 19;
- Cymal 22;
- Cymal 23;
- Cymal 25;:
- Cymal 30 ac Atodlen 3;

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, (Memorandwm Rhif 2), Y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Hydref 2022

¹¹ Memorandwm Rhif 2, paragraff 16

- Mewnosod Cymal 32 newydd;
- Cymal 34;
- Cymal 35 ac Atodlen 5 (ac eithrio paragraff 36).

22. Ym mharagraff 41 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn nodi:

"...nid yw fy marn ar yr angen am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chymalau o'r Bil fel y'icyflwynwyd, a nodir yn yr LCM a osodwyd ym mis Awst, wedi newid." Os oes darpariaeth wedi'i diwygio yn y cymalau hyn, a lle mae cymalau newydd wedi eu cyflwyno sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu o ran tai sy'n fater datganoledig, rwy'n credu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd."

23. Mae paragraffau 44 a 45 o Femorandwm Rhif 2 yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil, fel y cânt eu disgrifio ym Memorandwm Rhif 2.

"...cymharol ychydig o eiddo sydd yng Nghymru sy'n eiddo i ddarparwyr cofrestredig o Loegr a/neu a reolir ganddynt, a fydd yn ddarostyngedig i'r newidiadau mewn amgylchedd rheoleiddio a ddisgrifir gan y Bil."

Bwriedir y bydd y Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod y cyfnod pwyllgor, yn arwain at welliannau ym mherfformiad darparwyr cofrestredig, gan gryfhau hawliau tenantiaid a sbarduno newid yn ymddygiad landlordiaid er mwyn canolbwyntio ar anghenion tenantiaid, a sicrhau bod landlordiaid yn cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad. Bydd hyn yn arwain at newid cadarnhaol i bob tenant darparwyr cofrestredig o Loegr, gan gynnwys y 8tenantiaid Cymreig hynny y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt ac felly rwy'n fodlon y dylid gwneud y darpariaethau hyn mewn Bil Seneddol y DU.¹²

¹² Gweler hefyd Femorandwm Rhif 2, paragraffau 47 a 48

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

24. Cafodd y Memoranda eu trafod gennym yn ein cyfarfod ar 24 Hydref 2022, a chytunwyd ar ein hadroddiad ar y ddau femoranda ar 21 Tachwedd 2022.¹³

Ein barn ni

Sylwadau cyffredinol

25. Rydym yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn y Memoranda o ran ei rhesymau dros wneud darpariaeth i Gymru yn y Bil.

26. Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Rydym yn nodi ymhellach nad yw barn Llywodraeth y DU yn cyd-fynd ag un Llywodraeth Cymru.

Casgliad 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru fod yr holl gymalau ac Atodlenni a restrir yn y Memoranda yn dod o fewn diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, , fel y'u disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

Prydlondeb y Memoranda

27. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Mehefin 2022. Fodd bynnag, ni chafodd Memorandwm cyntaf y Gweinidog ei osod gerbron y Senedd tan 18 Awst pan oedd y Senedd mewn cyfnod o doriad yr haf. Er ein bod yn cydnabod bod y Gweinidog wedi ysgrifennu at y Llywydd ar 27 Mehefin¹⁴, mae'n anffodus bod 10 wythnos wedi mynd heibio cyn i Lywodraeth Cymru allu gosod y Memorandwm gofynnol gerbron y Senedd. Rydym yn cydnabod rhesymu'r Gweinidog bod hyn, yn rhannol, oherwydd bod y Bil ond ar gael i Lywodraeth Cymru y diwrnod cyn ei gyflwyno i Senedd y DU. Mae hyn yn anffodus ac yn pwysleisio ein pryderon ynghylch cyflwr presennol y parch a'r cysylltiadau rhynglywodraethol.

28. Bu oedi o chwe wythnos hefyd rhwng cyflwyno diwygiadau perthnasol i'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi, ar 25 Awst 2022, a gosod Memorandwm Rhif 2 gerbron y Senedd, ar 5 Hydref. Eto, rydym yn cydnabod bod y Gweinidog wedi ysgrifennu at y Llywydd ar 8 Medi¹⁵ i ddatgan y

¹³ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 24 Hydref 2022 a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Tachwedd 2022

¹⁴ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd, 27 Mehefin 2022

¹⁵ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd, 8 Medi 2022

byddai'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol gofynnol yn cael ei osod y tu allan i'r dyddiad cau arferol o bythefnos yn Rheol Sefydlog 29.

29. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y rhesymeg a gyflwynwyd gan y Gweinidog yn y llythyr at y Llywydd a chredwn fod angen esboniad pellach arno.

30. Yn ei llythyr, dywed y Gweinidog fod yr oedi a achoswyd o ran gosod Memorandwm Rhif 2 wedi'i achosi gan "y gwelliannau sy'n cael eu gosod yn ystod y toriad".

31. Cafodd Memorandwm cyntaf y Gweinidog hefyd ei osod yn ystod cyfnod toriad yr haf y Senedd. Felly, nid yw'n glir i ni pa rwystr y mae'r Gweinidog yn ei awgrymu gafodd ei achosi gan gyfnod y toriad, yn enwedig pan mae wedi hen ennill ei blwyf bod y llywodraeth yn cario mlaen pan nad yw'r senedd yn eistedd.

32. Pe bai'r Gweinidog, am ryw reswm, wedi osgoi gosod Memorandwm Rhif 2 yn ystod cyfnod toriad yr haf, dechreuodd y tymor newydd ar 12 Medi felly byddai cyfle wedi bod i'w osod dair wythnos ynghynt.

33. Yn ein barn ni, dylai'r rhesymu dros yr oedi fod wedi bod yn gliriach ac yn fwy manwl; mae'n anffodus bod esboniad y Gweinidog yn awgrymu bod cyfnod toriad y Senedd yn gosod cyfyngiadau ar Lywodraeth Cymru o ran gosod busnes.

Casgliad 2. Rydym yn manteisio ar y cyfle i atgoffa'r Gweinidog - a holl Weinidogion Cymru - ei bod yn bwysig darparu gwybodaeth amserol i Aelodau'r Senedd, er mwyn peidio ag ychwanegu at y diffygion democrataidd a achosir gan Filiau'r DU sy'n gwneud darpariaeth i Gymru mewn meysydd datganoledig a'r broses gydsynio gysylltiedig.

Effaith y Bil yng Nghymru

34. Nodwn fod y Gweinidog o'r farn mai nifer fach iawn o ddarparwyr cofrestredig o Loegr sy'n berchen ar a/neu'n rheoli rhywfaint o stoc tai cymdeithasol yng Nghymru.¹⁶ Fodd bynnag, nid oes manylion penodol na gwybodaeth am nifer gwirioneddol y cartrefi na'r tenantiaid yng Nghymru y bydd y Bil yn effeithio arnynt.

35. Rydym yn ymwybodol bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi ysgrifennu¹⁷ at y Gweinidog am y mater hwn, yn gofyn am fanylion ynghylch nifer yr eiddo yng Nghymru fydd yn destun newidiadau a gynigir gan y Bil. Rydym hefyd yn cydnabod ymateb y Gweinidog bod y

¹⁶ Y Memorandwm, paragraff 15

¹⁷ Llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 31 Hydref 2022

Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol yn Lloegr wedi cadarnhau bod 18 o Ddarparwyr Cofrestredig yn berchen ar, ac yn rheoli tua 530 o gartrefi/unedau yng Nghymru a fydd yn destun darpariaethau'r Bil.¹⁸

36. Rydym yn cytuno â'r teimladau a fynegwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai bod y wybodaeth hon yn cynorthwyo Pwyllgorau'r Senedd yn eu hystyriaethau, ac felly rydym yn credu y dylai fod wedi'i chynnwys yn y Memorandwm gwreiddiol ar gyfer y Bil.

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol pellach

37. Nodwn fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at y Llywydd ar 24 Hydref 2022¹⁹, gan nodi y cafodd rhagor o ddiwygiadau i'r Bil eu cyflwyno a'u derbyn ar 18 Hydref ac, o ganlyniad, byddai memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach yn cael ei osod gerbron y Senedd.

38. Nodwn fod Memorandwm Rhif 3 wedi'i osod gerbron y Senedd ar 17 Tachwedd 2023.²⁰

39. Byddwn yn ystyried Memorandwm Rhif 3 maes o law.

¹⁸ Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 10 Tachwedd 2022

¹⁹ Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd, 24 Hydref 2022

²⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio), Tachwedd 2022
